# Y Bwletin Wythnosol

# Weekly Bulletin

27/03/2023 - 31/03/2023



Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol yn Eisteddfod Rhanbarthol Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid! Cynrychiolaeth cryf ar lefel genedlaethol i Ysgol Gyfun Aberaeron - go lew chi!

Congratulations to all of our pupils at the Urdd Eisteddfod in Pontrhydfendigaid! Good luck to all pupils who will be representing the school and the county at national level at the end of May - well done all!

# **Eisteddfod Rhanbarthol Ceredigion**
## Urdd Eisteddfod






*Fflur McConnell* - Unawd Merched Bl.7,8,9
*Celt Dafydd* - Unawd Bechgyn Bl.7,8,9
*Ela Mablen Griffiths-Jones* - Alaw Werin Bl.7,8,9
*Ela Mablen Griffiths-Jones* - Cerdd Dant Bl.7,8,9



*Celt Dafydd ac Ela Mablen Griffiths-Jones* - Deuawd Bl.7,8,9
*Ela Mablen Griffiths-Jones* - Cyflwyniad Dramatig Unigol Bl.7,8,9
*Ela Mablen Griffiths-Jones ac Olivia Davie*s - Deuawd Cerdd Dant Bl.7,8,9





<u>*Fflur McConnell*</u> - Llefaru Unigol Bl.7,8,9

<u>*Ela Mablen Griffiths-Jones*</u> - Unawd Merched Bl.7,8,9

<u>*Parti Bechgyn*</u> Iau, Bl.7,8,9








*<u>Ela Mablen Griffiths-Jones</u>* - Llefaru Unigol Bl.7,8,9

*<u>Fflur McConnell</u>* - Alaw Werin Bl.7,8,9

*<u>'Parti Merched,</u>* Bl 7,8 a 9'

*<u>Swyn Dafydd</u>* - Alaw Werin Bl.10-19oed






Chwaraeodd nifer o ddisgyblion Ysgol Aberaeron mewn gemau rhyng-ysgolion ar brynhawn dydd Mercher (22/03/2023). Croesawyd Ysgol Penglais i Ysgol Aberaeron i chwarae gêmau hoci, pêl rwyd a rygbi.



Many of Ysgol Aberaeron students played in sports games on Wednesday afternoon (22/03/2023). Ysgol Aberaeron welcomed Ysgol Penglais to play hockey, netball and rugby games.

# PÊL FASGED
# BASKETBALL

Da iawn i dîm pêl-fasged Blwyddyn 8 yng nghystadleuaeth Junior NBA ym Mangor ddoe. Ymdrech ardderchog gan bawb!







Well done to the Year 8 basketball team on representing the school and the Chicago Bulls in the Junior NBA tournament in Bangor (Tuesday 28/3/23).

# Brifysgol Abertawe

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion blwyddyn 9 a 10 fu’n rhan o’r daith Cemeg i Brifysgol Abertawe. Dechreuon nhw ychydig yn betrusgar ac ansicr, ond erbyn y diwedd yr oeddynt yn gweithio mor hyderus ag unrhyw un o'r israddedigion oedd yn eu cynorthwyo. Dwi'n meddwl bod 'na dipyn o wyddonwyr y dyfodol yn eu plith yn bendant! Da iawn pawb!

A big well done to the year 9 and 10 pupils who were part of the Chemistry trip to Swansea University. They started off a little hesitant and unsure, but by the end were working as confidently as any of the undergraduates who were assisting them. I think there are definitely a few scientists of the future amongst them! Well done everybody!






















# SIMS Parent App

Download on the App Store

GET IT ON Google Play




**App newydd SIMS Parent - mynediad hawdd at wybodaeth bwysig yr ysgol.**

Mae'n bleser gennym rannu gwybodaeth am SIMS Parent, ffordd gyfleus o rannu gwybodaeth gyda chi am fywyd ysgol eich plentyn!

Yn ystod yr wythnos yn cychwyn 17/04/2023 byddwch yn derbyn e-bost gan noreply@sims.co.uk yn eich gwahodd i ymuno a Parent SIMS. Gwiriwch eich ffolder sbam a sothach os nad ydych wedi derbyn y ddolen actifadu.

**The new SIMS Parent – easy access to important school information.**

We are delighted to share information on SIMS Parent, a convenient way to share information with you about your young person's school life!

During week commencing 17/04/2023 you will receive an email from noreply@sims.co.uk inviting you to join SIMS Parent. Please check your spam and junk folder if you haven't received the activation link.

# At sylw disgyblion a rhieni Blwyddyn 13:




# For the attention of Year 13 students and parents:

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi agor ar gyfer gwneud cais am Gyllid i'r Brifysgol. Dyma'r linc:

## www.studentfinancewales.co.uk

Student Finance Wales has opened to apply for Student Finance for University – here is the link.

# NODYN Y PENNAETH

Mae Tymor y Gwanwyn yn dirwyn i ben. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r ysgol ac i'r disgyblion yn ystod y wythnosau a'r misoedd diwethaf. Hoffwn gymryd y cyfle i'ch atgoffa o rai dyddiadau pwysig ac i rannu gwybodaeth gyda chi.

Mi fydd yr ysgol yn cau prynhawn yfory (Gwener, 31ain) ar gyfer gwyliau'r Pasg. Mi fydd yr ysgol yn ail-agor i ddisgyblion ar Ddydd Mawrth, Ebrill 18fed. Cofiwch fod 2 gŵyl banc ym Mis Mai - Dydd Llun y 1af a'r 8fed ac felly bydd yr ysgol ar gau ar y diwrnodau yma.

---

Yn anffodus, oherwydd effaith chwyddiant, mi fydd yn rhaid i brisiau bwyd yn y ffreutur gynyddu ychydig. Rydym yn awyddus iawn i gadw prisiau mor isel â phosib a heb gynyddu ers rhai blynyddoedd bellach ond mae'n anochel bod rhaid gwneud erbyn hyn. Mae'r ysgol a'r corff llywodraethol wedi sicrhau nad oes unrhyw gynnydd ar brisiau ffrwythau ac wedi cadw'r cynnydd ar brydau bwyd cynnes yn isel iawn.

---

Wedi'r Pasg, mi fydd yr ysgol yn symud i wisg ysgol yr Haf. Un newid i'r wisg yw hwn, sef bod disgyblion yn gallu gwisgo crys polo glas tywyll gyda bathodyn yr ysgol yn lle crys a thei. Ond, os oes well gan ddisgyblion a/neu chi, mae croeso iddynt barhau i wisgo'r crys a thei yn hytrach na'r crys polo. Mae'r disgwyliadau o ran esgidiau / trowser / sgert / trowsus byr ac ati yn aros yr un peth. Gallwch weld y polisi gwisg ar wefan yr ysgol neu mae croeso i chi gysylltu os oes unrhyw gwestiynau. Mi fyddwn yn casglu barn disgyblion a rhieni ar y wisg ysgol yn ystod y tymor nesaf.

# HEADTEACHER'S NOTE

The Spring Term is coming to an end. Thank you very much for your support for the school and the pupils during the last few weeks and months. I would like to take the opportunity to remind you of some important dates and to share information with you.

The school will close tomorrow afternoon (Friday, 31st) for the Easter holidays. The school will re-open to pupils on Tuesday, April 18th. Remember that there are 2 bank holidays in May - Monday the 1st and 8th and therefore the school will be closed on these days.

---

Unfortunately, due to the effect of inflation, food prices in the canteen will have to increase slightly. We are very keen to keep prices as low as possible and have not increased for a few years, but it is inevitable that we must do so now. The school and the governing body have ensured that there is no increase in fruit prices and have kept the increase on hot meals as low as possible.

---

After Easter, the school will move to the summer school uniform. This is only one change to the uniform, namely that pupils can wear a dark blue polo shirt with the school logo instead of a shirt and tie. But, if pupils and/or you prefer, they are welcome to continue wearing the shirt and tie rather than the polo shirt. The expectations regarding shoes / trousers / skirt / shorts etc. remain the same. You can see the uniform policy on the school website or feel free to get in touch if you have any questions. We will be collecting the opinions of pupils and parents on the school uniform during the next term.